# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, DDYDD GWENER 10 MEHEFIN 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL:** Y CynghoryddP M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| P Downing | V M Evans | K E Marsh |
| H M Morris | C L Philpott | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| A Gruffydd | Cyfreithiwr |
| K Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

### 18 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J P Curtice, P Lloyd a T H Rees.

### 19 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 20 COFNODION:

**PENDERFYNWYD** y dylid **cymeradwyo** cofnodion y:

a) Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2016;
b) Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 18 Mai, 2016; a'r
c) Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 19 Mai, 2016

fel cofnodion cywir.

### 21 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

22 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU I GERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - EJLI**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag LS.

Amlinellodd LS y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **GWRTHOD** cais LS am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Nid oedd aelodau'n ystyried bod LS yn berson addas a phriodol i ddal trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat am nad oedd wedi bodloni canllawiau'r cyngor o ran 3 blynedd heb gollfarnau. Yn ogystal, cafwyd y collfarnau dros gyfnod amser parhaol ac fe'u cynlluniwyd.

23 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 – TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT – TA**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â TA.

Amlinellodd TA y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **GWRTHOD** cais TA am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Nid oedd aelodau'n ystyried bod TA yn berson addas a phriodol i ddal trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat am y rhesymau canlynol:

a) Roedd TA wedi cyfaddef ei fod yn gyrru tacsi pan gyflawnwyd y troseddau;
b) Roedd TA wedi derbyn dau rybudd yn flaenorol am ei ymddygiad yn y dyfodol, ac nid oedd wedi rhoi sylw iddynt;
c) Nid oedd TA wedi dweud wrth yr Awdurdod Trwyddedu am y pwyntiau ychwanegol; ac
ch) Mae nifer y tramgwyddau goryrru sy'n arwain at 10 pwynt cosb o fewn 4 mis, ynghyd â'r methiant i hysbysu yn dangos ei fod wedi diystyru'r rhwymedigaethau i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.48 am

**CADEIRYDD**